

YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ARGYMHELLION Y PWYLLGOR IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: YMCHWILIAD I GAMDDEFNYDDIO ALCOHOL A SYLWEDDAU

Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mwy na £50m y flwyddyn i gyflawni ein strategaeth 10 mlynedd ar gamddefnyddio sylweddau, *Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed 2008-18* a'r ymrwymadau penodol yn y Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau cysylltiedig (2013-15). Mae'r buddsoddiad sylweddol hwn yn cydnabod yr effaith ddistrywiol y mae camddefnyddio sylweddau'n ei chael ar unigolion, eu teuluoedd a'n cymunedau ehangach.

Mae cefnogaeth barhaus gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â gwaith ein partneriaid allanol yn y sector statudol a'r trydydd sector, yn cael effaith amlwg ar wasanaethau a chanlyniadau ar gyfer y rhai y mae camddefnyddio sylweddau'n effeithio ar eu bywydau. Rydym wedi gweld tuedd gyffredinol o welliant yn yr amseroedd aros yr adroddir arnynt ar gyfer y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau triniaeth camddefnyddio sylweddau dros y 5 mlynedd ddiwethaf, ac mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos gostyngiadau mewn marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol a chyffuriau yng Nghymru. Mae ystadegau a ryddhawyd ym mis Medi 2015 yn dangos gostyngiad o 30% yn nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yng Nghymru ers 2008 sy'n tystio i'r camau gweithredu a gymerir yng Nghymru i gefnogi'r agenda hon sy'n gryn her.

Argymhelliad 1

Dylai'r Dirprwy Weinidog Iechyd gyhoeddi camau i fynd i'r afael â chamddefnyddio steroidau a chyffuriau gwella delwedd yng Nghynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau nesaf (2016-2018) Llywodraeth Cymru.

Ymateb: Derbyn

Mae mynd i'r afael â'r niweidiau sy'n gysylltiedig â steroidau a chyffuriau gwella delwedd yn dal i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Bydd y Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau 2016-18 sydd ar ddod yn nodi'r camau nesaf y byddwn yn eu cymryd i addysgu unigolion ymhellach am y risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio'r cyffuriau hyn er mwyn lleihau defnydd yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwaith sylweddol ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i fynd i'r afael â'r niweidiau a achosir gan steroidau a chyffuriau gwella delwedd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- 1) Lansio pecyn cymorth addysgol cenedlaethol ar steroidau a chyffuriau gwella delwedd ar gyfer pobl ifanc. Mae'r Pecyn Cymorth wedi'i fwriadu i achosi i bobl ifanc oedi cyn defnyddio Steroidau a Chyffuriau Gwella Delwedd / eu hatal rhag eu defnyddio, ac mae'n cynnwys cyfres o weithdai addysgol a chodi ymwybyddiaeth sy'n archwilio materion megis y

risgiau i iechyd a'r niwed sy'n gysylltiedig â'u defnyddio, dylanwadau a chwiwiau o ran delwedd y corff, a mythau cyffredin. Mae'r pecyn cymorth wedi'i ddylunio ar gyfer amrywiaeth o amgylcheddau ieuencid ac addysgol ac mae wedi'i deilwra mewn modd sy'n ei gwneud yn bosibl ei gyflwyno mewn modd hyblyg a'i ddefnyddio mewn modd sy'n gweddu i anghenion unigol. Gan hynny mae'r pecyn yn cynnwys cynlluniau gwersi, nodiadau / gwybodaeth ar gyfer hwyluswyr, a dolenni gwe ar gyfer adnoddau y gellir eu hargraffu a phytiau o ffilm sy'n cyd-fynd â'r pecyn i ategu darpariaeth bellach ym mhob gweithdy.

- 2) Datblygu gwefan i ddarparu gwybodaeth a chyngor sy'n ddibynadwy ac yn seiliedig ar dystiolaeth i leihau'r niweidiau sy'n gysylltiedig â'r cyffuriau hyn. Mae'r wefan yn darparu peth wmbredd o wybodaeth, gan gynnwys fideos sy'n ymwneud â risgiau a niweidiau.
- 3) Datblygu a darparu hyfforddiant ar gyfer asiantaethau ledled Cymru, gan gynnwys adnabod arweinwyr ar gyfer Steroidau a Chyffuriau Gwella Delwedd o fewn asiantaethau.
- 4) Cynnal ymgyrch lleihau niwed trwy gydol mis Gorffennaf a mis Awst 2015 trwy gyfrwng radio a'r cyfryngau cymdeithasol gyda phwyslais penodol ar drosglwyddo firysau a gludir yn y gwaed ac annog unigolion i gael eu profi.

Argymhelliad 2

Dylai'r Dirprwy Weinidog lechyd nodi sut y mae wedi cymryd yr adroddiad hwn a'i argymhellion i ystyriaeth pan fydd yn cyhoeddi'r Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau (2016-2018) drafft.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu adroddiad y Pwyllgor sy'n cael ei ddefnyddio i lywio datblygiad y Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau newydd (2016-18). Lle y bo'n briodol, mae argymhellion y Pwyllgor yn cael eu hymgorffori yn y camau gweithredu o fewn y Cynllun newydd. Rydym hefyd yn ystyried barn ystod eang o bartneriaid a defnyddwyr gwasanaethau o gyfres o weithdai ymgynghori a gynhaliwyd yn ddiweddar ynghyd â'r sylfaen dystiolaeth wedi'i diweddarau.

Argymhelliad 3

Dylai'r Dirprwy Weinidog lechyd edrych yn fanwl ar ffyrdd o annog rhagor o feddygon teulu i arbenigo ym maes camddefnyddio alcohol a sylweddau fel bod gan bob clwstwr meddygon teulu fynediad at yr arbenigedd hwn.

Ymateb: Derbyn

Gan gydweithio'n agos gyda Choleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau a Byrddau Iechyd Lleol, bydd Llywodraeth Cymru yn annog meddygon teulu (a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill yn y sector gofal sylfaenol) i gwblhau tystysgrifau camddefnyddio sylweddau Rhan 1 a 2 Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol ac i arbenigo mewn camddefnyddio sylweddau. Byddwn yn adolygu'r ddarpariaeth bresennol a chyllidebau ledled Cymru ac yn targedu ardaloedd clwstwr sydd heb fynediad at arbenigedd o'r fath i archwilio sut y gallai hyfforddiant ychwanegol ddiwallu anghenion lleol.

Hefyd, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i drefnu bod ei Chynllun Bwrsariaeth Camddefnyddio Sylweddau ar gael i Fyrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau i roi cymorth i ddatblygu a hyfforddi'r gweithlu camddefnyddio sylweddau ar draws pob sector, gan gynnwys gofal sylfaenol.

Argymhelliad 4

Dylai'r Dirprwy Weinidog lechyd weithio gyda'r Ddeoniaeth i adolygu'r hyfforddiant a ddarperir i feddygon teulu ar gamddefnyddio alcohol a sylweddau, ar gyfer meddygon teulu dan hyfforddiant ac fel rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus meddygon. Dylai'r adolygiad hwn gynnwys: mynd i'r afael â rhagfarn ac agweddau negyddol (lle maent yn bodoli); nodi llwybrau clir ar gyfer atgyfeirio cleifion; a gwella diagnosis.

Ymateb: Derbyn

Byddwn yn parhau i gydweithio gyda'r Ddeoniaeth, Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol ac eraill i sicrhau bod yr hyfforddiant alcohol sydd ar gael i feddygon teulu yn berthnasol, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn dal i fod yn addas ar gyfer y diben. Mae hyn yn cynnwys mynd ati'n rheolaidd i werthuso'r angen am yr hyfforddiant hwn ymhlith meddygon teulu a'r gweithlu ehangach a diweddarau cynnwys y rhaglenni perthnasol yng ngoleuni tueddiadau newydd neu dueddiadau sy'n dod i'r amlwg.

Argymhelliad 5

Dylai cynllun gofal sylfaenol Llywodraeth Cymru gynnwys mesurau i sicrhau bod gwasanaethau gofal sylfaenol yn fwy hygyrch i bobl sy'n dioddef problemau camddefnyddio alcohol a sylweddau.

Ymateb: Derbyn

Nod cynllun cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol yw gwella mynediad at wasanaethau meddygon teulu a, thrwy'r contract meddygon teulu ar gyfer 2015/16 a 2016/17, bod meddygon teulu'n datblygu'r timau amlddisgyblaethol lleol y mae eu hangen i wella'r modd y caiff gofal ei gydgyssylltu, i wella ansawdd y gofal ac i wella argaeledd sgiliau proffesiynol gymaint ag a ellir. Trwy'r rhwydweithiau clwstwr bydd meddygon teulu'n cael eu hannog hefyd i gyfranogi gyda rhwydweithiau cymunedol byrddau iechyd a defnyddwyr gwasanaethau eraill i wella'r modd y caiff gofal ei gydgyssylltu a gwella ansawdd y gofal ar gyfer pobl sy'n dioddef problemau camddefnyddio alcohol a sylweddau.

Mae diwallu anghenion pobl y mae camddefnyddio sylweddau yn effeithio arnynt yn ymwneud nid dim ond â mynediad at wasanaethau meddygon teulu. Mae'r cynllun gofal sylfaenol yn adlewyrchu ein nod i wella mynediad at y tîm gofal sylfaenol ehangach a danlinellir trwy ein cynllun newydd ar gyfer y gweithlu gofal sylfaenol. Mae'r cynllun yn seiliedig ar dystiolaeth mai'r ffordd fwyaf effeithiol o ddiwallu anghenion pobl yw adnabod yr anghenion hynny a chynllunio a darparu gofal ar lefel leol iawn trwy'r 64 o glystyrau gofal sylfaenol, sy'n dwyn i mewn yr holl bobl, gwasanaethau a sefydliadau hynny a all helpu. I bobl ag anghenion sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau, bydd hyn yn cynnwys dwyn i mewn y gwasanaethau a'r sefydliadau hynny sy'n rhan o'r Byrddau Cynllunio Ardal. Gan hynny, rydym yn annog Byrddau Cynllunio Ardal i ddatblygu perthnasoedd cryfach gyda chlystyrau sylfaenol o fewn eu rhanbarth er mwyn goleuo a dylanwadu ar gynlluniau clwstwr.

Hefyd mae 207 o fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru sy'n cynnig rhaglen cyfnewid nodwyddau a chwistrellau. Mae hyn yn galluogi fferyllwyr i ymgysylltu â'r rhai sy'n chwistrellu sylweddau a rhoi cyngor a gwybodaeth hollbwysig ynghylch lleihau niwed. Rydym hefyd wedi cydweithio'n agos gyda Chanolfan Addysg Broffesiynol Fferylliaeth Cymru, gan ddatblygu pecyn e-ddysgu i uwchsgilio gwybodaeth fferyllwyr am gamddefnyddio meddyginiaethau a ddarperir dros y cownter a rhai a ddarperir ar bresgripsiwn yn unig.

Argymhelliad 6

Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu gwybodaeth wedi'i thargeddu ar gyfer pobl sy'n cael problemau camddefnyddio alcohol a sylweddau a fydd yn hyrwyddo'r amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir mewn gofal sylfaenol, ac yn gwella canfyddiadau.

Ymateb: Derbyn

Mae Llinell Gymorth Cyffuriau ac Alcohol Cymru (DAN 24/7) yn llinell gymorth ddwyieithog, rad-ac-am-ddim sy'n darparu un pwynt cyswllt ar gyfer unrhyw un yng Nghymru sy'n dymuno cael rhagor o wybodaeth a/neu gymorth mewn perthynas â chyffuriau ac alcohol. Mae'r gwasanaeth ar gael 24 awr y dydd, 7 niwrnod yr wythnos. Mae'r llinell gymorth yn darparu gwybodaeth ar-lein trwy wefan DAN 24/7 a thafleini gwybodaeth pan ofynnir amdanynt.

Mae gwybodaeth a ddarperir gan DAN yn cynnwys gwasanaethau o fewn y sector gofal sylfaenol i sicrhau bod unigolion yn ymwybodol o'r holl wasanaethau sydd ar gael ac i wneud dewis gwybodus o ran y gwasanaeth sy'n gweddu orau i'w hanghenion.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda DAN 24/7 i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu am yr ystod o wasanaethau sydd ar gael o fewn y sector gofal sylfaenol.

Argymhelliad 7

Bod y Dirprwy Weinidog Iechyd yn cynnal adolygiad o hyfforddiant ymyriadau byr o ran alcohol (ABI), ac yn nodi dull strategol o hyrwyddo a monitro effeithiolrwydd yr hyfforddiant.

Ymateb: Derbyn yn rhannol

Mae'r rhaglen Ymyriadau Byr o ran Alcohol wedi cael ei hadolygu'n flaenorol fel rhan o'r Rhaglen Trawsnewid Gwella Iechyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Canfu'r adolygiad fod tystiolaeth dda o effeithiolrwydd ymyriadau byr ac mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar hyn o bryd i ddatblygu dull mwy strategol o ddarparu ymyriadau byr yn unol â'r dystiolaeth bresennol ac argymhellion yn y Rhaglen Trawsnewid Gwella Iechyd. Bydd hyn yn cynnwys darparu pecyn hyfforddiant cadarn ar gyfer ystod o wasanaethau gan gynnwys gofal sylfaenol. Bydd nifer o gamau gweithredu o fewn y Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau 2016-18 a fydd yn ymwneud â pharhau i ddatblygu Ymyriadau Byr o ran Alcohol, gan gynnwys treialu'r rhaglen yn y gweithle.

Argymhelliad 8

Bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r canllawiau ar gyfer meddygon teulu a fferyllwyr, i leihau'r posibilrwydd o or-ragnodi a gor-gyflenwi, er mwyn gwella dulliau monitro cleifion, ac i sicrhau, pan fydd yn briodol, bod cynllun ymadael i gleifion.

Ymateb: Derbyn

Byddwn yn gofyn i Grŵp Cyngori Cymru Gyfan ar Bresgripsiynu (un o is-grwpiau Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru) ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, canfod unrhyw fylchau yn y canllawiau presennol a datblygu arweiniad pellach fel y bo'n briodol yn ystod 2016.

Mae Panel Cyngori annibynnol Llywodraeth Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau hefyd wrthi'n adolygu'r niweidiau sy'n gysylltiedig â phoenliniarwyr sydd ar gael ar bresgripsiwn yn unig; bydd adroddiad ar ran gyntaf yr adolygiad hwn, sy'n canolbwyntio ar y poenliniarydd tramadol, yn cael ei gyflwyno fis nesaf. Bydd argymhellion yr adolygiad hwn yn cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru a, lle y bo'n briodol, byddant yn cael eu hymgorffori yn y cynllun cyflawni camddefnyddio sylweddau newydd (2016-18).

Argymhelliad 9

Dylai'r Dirprwy Weinidog lechyd sicrhau bod y Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau nesaf (2016-2018) yn adlewyrchu'r angen i ddarganfod maint y niwed i'r ymennydd sy'n gysylltiedig ag alcohol, ac yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r problem.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd nifer o gamau i ddechrau deall a mynd i'r afael â phroblem gynyddol Niwed i'r Ymennydd sy'n Gysylltiedig ag Alcohol (ARBD) yng Nghymru. Mae'r rhain wedi cynnwys:

- 1) Comisiynu dau adroddiad, y naill gan Alcohol Concern Cymru a'r llall gan lechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd yr adroddiadau hyn yn gwneud nifer o argymhellion ynghylch atal, canfod yn gynnar; diagnosis ac ymgysylltu; triniaeth a chymorth; a sefydlu sylfaen dystiolaeth gadarn. Mae adroddiad lechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn darparu peth tystiolaeth ar faint problem niwed i'r ymennydd sy'n gysylltiedig ag alcohol a'r gwasanaethau sydd ar gael i bobl â niwed o'r fath.
- 2) Sicrhau bod clinigwyr ledled Cymru yn ymwybodol o ganllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn lechyd a Gofal sy'n nodi camau i reoli ac atal enseffalopathi Wernicke a syndrom Wernicke/Korsakoff trwy fwletin gan y Prif Swyddog Meddygol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2015. Roedd yr erthygl yn nodi mai'r

argymhellion allweddol oedd cynnig thiamin trwy'r geg ac, os yw'r driniaeth yn galw am hynny, thiamin parenterol ym mhen uchaf amrediad Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain i'r rhai sydd mewn perygl o ddatblygu enseffalopathi Wernicke e.e. y rhai â defnydd niweidiol o alcohol neu sy'n gaeth i alcohol a'r rhai sydd o bosibl â diffyg maeth, sydd yn y cyfnod diddyfnu aciwt neu sydd â chlefyd yr afu sydd wedi arwain at anghydadferiad.

- 3) Cefnogi Cynhadledd ar Niwed i'r Ymennydd sy'n Gysylltiedig ag Alcohol yng Nghymru a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2015 lle bu siaradwyr o Lerpwl, Fife a Glasgow yn rhannu eu profiadau o redeg gwasanaethau niwed i'r ymennydd sy'n gysylltiedig ag alcohol gyda chynadleddwyr a oedd yn cynnwys seiciatryddion, seicolegwyr, nyrsys, gweithwyr camddefnyddio sylweddau ac academyddion.
- 4) Cyfranogi mewn grŵp tasg a gorffen newydd a sefydlwyd gan Ganolfan Adsefydlu Alcohol Brynawel sy'n cynnwys ystod o arbenigwyr o faes iechyd a gofal cymdeithasol, comisiynwyr gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ac academyddion i ystyried pa gamau gweithredu pellach sy'n ofynnol ar lefel Cymru gyfan i ymateb i niwed sy'n gysylltiedig â'r ymennydd.

Gan adeiladu ar y gwaith hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati yn awr i sefydlu ac arwain grŵp cenedlaethol ar niwed i'r ymennydd sy'n gysylltiedig ag alcohol i oleuo camau gweithredu ar niwed i'r ymennydd sy'n gysylltiedig ag alcohol y mae angen eu cynnwys yn y cynllun cyflawni camddefnyddio sylweddau newydd dros dair blynedd (2016-18).

Argymhelliad 10

Bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r llwybrau triniaeth sydd ar gael i bobl sy'n dioddef dementia a achosir gan gamddefnyddio alcohol, gyda phwyslais ar sicrhau eu bod yn cael diagnosis cywir ac yn cael mynediad at yr amrywiaeth lawn o wasanaethau sydd ar gael, a'i bod yn nodi ei hymateb i'r adolygiad yn y Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau nesaf (2016-2018).

Ymateb: Derbyn

Byddwn yn adolygu'r modd y mae'r llwybrau triniaeth presennol hyn yn cael eu gweithredu yng Nghymru ac yn darparu manylion ychwanegol yn y Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau 2016-18 ar gyfer ymateb i'r canfyddiadau hyn lle y bo'n briodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn dal i fod yn ymrwymedig i wella gwasanaethau ar gyfer y rhai yr effeithir arnynt gan ddementia a dangosir hyn yn *Cymru: Cenedl sy'n Deall Dementia* a lanswyd yn ddiweddar.

Ym mis Mai 2015 lansiodd yr arweiniad *Dementia: Lleihau'r Risg*. Mae'r arweiniad yn egluro, mewn modd hygyrch, y newidiadau syml y gall pobl eu gwneud i'w ffordd o fyw er mwyn aros yn fwy heini ac yn iachach, a lleihau'r siawns o ddatblygu dementia. Mae cynllun cyfathrebu i godi ymwybyddiaeth o'r chwe cham y gellir eu cymryd i leihau'r risg o ddementia'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Peidio ag yfed gormod o alcohol yw cam pedwar. Bydd hwn yn bwynt gweithredu yng Nghynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau 2016-18 a fydd yn atgyfnerthu'r neges ataliol ynghylch peryglon camddefnyddio alcohol a dementia ymhellach a hefyd yn sicrhau bod llwybrau triniaeth ar gyfer y rhai yr effeithir arnynt yn briodol.

Mae cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu hefyd i gynorthwyo'r rhai â dementia, gan gynnwys:

- £240,000 i ariannu Nyrsys Cyswllt Dementia eleni i helpu i wella cyfraddau diagnosis, i gynorthwyo pobl i gael mynediad at y gofal gorau, ac i fyw eu bywydau orau y gallant.
- £800,000 a fydd ar gael ar lefel gofal sylfaenol ac a fydd yn cael ei ddefnyddio i sicrhau 32 o swyddi newydd, wedi'u sefydlu o fewn clystyrau gofal sylfaenol ac yn gweithio ar draws y clystyrau hynny, i ddarparu gwybodaeth a chymorth wyneb-yn-wyneb ar gyfer cleifion a'u teuluoedd/gofalwyr am hyd at 12 mis ar ôl diagnosis, a'r tu hwnt i hynny pan fo'r clefyd wedi datblygu ymhellach a bod heriau gwahanol yn dod i'r amlwg.
- £4 miliwn a fuddsoddir mewn gwasanaethau cyswllt seiciatrig i wella profiad pobl hŷn a chanddynt broblemau iechyd corfforol ac iechyd meddwl mewn ysbytai cyffredinol, a fydd yn cynorthwyo ysbytai i ddarparu asesiadau iechyd meddwl amserol a lleihau hyd yr arhosiad a'r cyfraddau aildderbyn.

Rydym hefyd yn parhau i gefnogi *Llinell Gymorth Dementia Cymru* sy'n wasanaeth dwyieithog, sydd ar gael 24 awr y dydd, 7 niwrnod yr wythnos, 365 diwrnod y flwyddyn, ac sy'n dal i ddarparu cyngor a chymorth emosiynol ar gyfer y rhai ac arnynt angen cyngor ynghylch pryder penodol, neu y mae arnynt yn syml angen siarad.

Argymhelliad 11

Bod Llywodraeth Cymru yn mapio pob un o'r gwasanaethau camddefnyddio alcohol a sylweddau yng Nghymru, yn nodi unrhyw fylchau

ac yn nodi sut y bydd y bylchau hyn yn cael eu cau yn y Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau nesaf (2016-2018).

Ymateb: Derbyn

Mae'n ofynnol i'r holl Fyrddau Cynllunio Ardal (BCAau) Camddefnyddio Sylweddau yng Nghymru gynnal dadansoddiad o'r bylchau fel rhan o ddatblygu eu strategaethau comisiynu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau comisiynu diwygiedig ar gyfer BCAau cyn bo hir a fydd yn ystyried yr arbenigedd pellach sy'n dod i'r amlwg ym maes comisiynu; rôl gryfach BCAau, y gofyniad i sefydlu strategaeth gomisiynu sy'n seiliedig ar ganlyniadau a blaenoriaethau cenedlaethol a lleol newydd.

Er mwyn datblygu'r Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau newydd (2016-18) rydym hefyd wedi ymgynghori'n uniongyrchol â rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau ledled Cymru trwy gyfres o ddiwyddiadau ar ffurf gweithdai. Mae hyn wedi bod yn gyfle ychwanegol inni adnabod unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth a bydd yn ein cynorthwyo i bennu blaenoriaethau ar gyfer y cynllun cyflawni newydd.

Hefyd, mae'r wefan DAN 24/7 yn darparu rhestr gynhwysfawr o'r holl wasanaethau camddefnyddio alcohol a sylweddau yng Nghymru.

Argymhelliad 12

Bod y Dirprwy Weinidog Iechyd yn ymdrin ag anghenion penodol pobl ddigartref sy'n cael problemau camddefnyddio alcohol a sylweddau yn y Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau nesaf (2016-2018).

Ymateb: Derbyn

Mae'n ofynnol i Fyrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau adolygu anghenion pobl ddigartref fel rhan o'u dadansoddiad o anghenion lleol a chomisiynu gwasanaethau priodol i ddiwallu anghenion y grŵp cleientiaid agored i niwed hwn.

Ceir ystod o wasanaethau sy'n targedu'r grŵp hwn yn benodol megis y Rhaglen Bontio yng Nghaerdydd sy'n darparu gwasanaethau i helpu i fynd i'r afael â dibyniaeth mewn gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai. Nod y rhaglen yn y pen draw yw ailgartrefu defnyddwyr gwasanaethau mewn llety annibynnol ar ôl ymdrin â'u materion camddefnyddio sylweddau. Enghraifft arall yw'r lloches i bobl ddigartref yn y Rhyl sy'n darparu cymorth dwyster uchel ar gyfer pobl ddigartref â phroblemau camddefnyddio sylweddau trwy roi cyngor a chymorth mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau a'u hatgyfeirio at wasanaethau camddefnyddio sylweddau, hyfforddiant a chyflogaeth eraill.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fframwaith iechyd a lles ym mis Ionawr 2014 i

roi arweiniad sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ddarparwyr a chomisiynwyr gwasanaethau ynghylch ystod o bynciau sy'n ymwneud â lleihau niwed ac iechyd. Roedd yr arweiniad hwn yn cynnwys saith pennod gydag un bennod yn canolbwyntio'n benodol ar dargedu grwpiau megis y rhai sy'n ddigartref. Mae Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn glir i Fyrddau Cynllunio Ardal y dylent weithredu'r argymhellion yn y fframwaith ac rydym yn monitro'r camau gweithredu y mae'r BCAu wedi'u sefydlu trwy ein trefniadau rheoli perfformiad sefydledig. Hefyd mae pob ardal BCA wedi datblygu grwpiau lleihau niwed ac maent yn gweithio tuag at weithredu'r fframwaith iechyd a lles yn seiliedig ar flaenoriaethau mewn ardaloedd lleol. Mae swyddog o Lywodraeth Cymru yn mynychu ac yn cefnogi'r grwpiau hyn.

Rydym yn cydnabod y gellir gwneud gwaith pellach i gynorthwyo pobl ddigartref â phroblemau camddefnyddio sylweddau a byddwn yn nodi'r camau gweithredu pellach y byddwn yn eu cymryd i gefnogi'r grŵp agored i niwed hwn fel rhan o'r Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau newydd (2016-18).

Argymhelliad 13

Dylai'r Dirprwy Weinidog Iechyd adolygu'r ôl-ofal a ddarperir gan wasanaethau cymorth, boed yn wasanaethau datganoledig a gwasanaethau nad ydynt wedi cael eu datganoli, i bobl sydd â phroblemau camddefnyddio alcohol a sylweddau pan ryddheir hwy o'r carchar, a gweithio gyda Llywodraeth y DU a chyrrff eraill pan fydd angen, i sicrhau bod mynediad ar gael i lety a thriniaeth briodol.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod cysylltiadau ffurfiol â charchardai yn bodoli trwy ei gwaith gyda'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy'r a phartneriaid ehangach ym maes cyfiawnder troseddol (gan gynnwys y Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau) y maent i gyd yn cael eu cynrychioli ar bob Bwrdd Cynllunio Ardal a'r Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol ar Gamddefnyddio Sylweddau.

Mae mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau'n rhan o'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Lleihau Aildroseddu ac yn ffrwd gwaith allweddol. Rydym yn deall pwysigrwydd darpariaeth ddi-dor o ran gofal a thriniaeth ar gyfer troseddwy'r pan gânt eu rhyddhau o'r carchar a byddwn yn parhau i weithio gyda'r Gwasanaeth Rheoli Integredig Troseddwy'r a darparwyr gwasanaethau camddefnyddio sylweddau i sicrhau bod gwasanaethau ar gael ar adeg rhyddhau o'r carchar: darpariaeth a gaiff ei monitro fel rhan o'r gofynion darparu gwasanaethau a osodir ar ddarparwyr. Hefyd, mae cymorth ar ôl rhyddhau o'r carchar yn rhan o flaenoriaethau grwpiau lleihau niwed rhanbarthol lle mae ystod o randdeiliaid yn dod ynghyd i drafod darpariaeth gofal a thriniaeth ac i sicrhau bod y llwybrau atgyfeirio a gytunwyd yn ffurfiol yn cael eu darparu.

Argymhelliad 14

Dylai Llywodraeth Cymru fapio darpariaeth canolfannau dadwenwyno preswyl yng Nghymru, gan gynnwys cyfleusterau menywod yn unig, a nodi unrhyw fylchau, a sut y bydd yn mynd ati i gau'r bylchau hynny.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru ar fin cyhoeddi taflen wybodaeth ar gyfer cleientiaid sy'n rhoi trosolwg gynhwysfawr o'r gwasanaethau dadwenwyno i gleifion mewnol a'r gwasanaethau adsefydlu preswyl sydd ar gael ledled Cymru, gan gynnwys cyfleusterau i fenywod yn unig.

Lle'r Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau yw cynnal asesiad cadarn o'r anghenion ar gyfer pob haen o wasanaethau fel rhan o ddatblygu'u strategaethau comisiynu a nodi sut y bydd yr angen hwn yn cael ei ddiwallu.

Bydd y Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau 2016-18 yn ystyried pa gamau gweithredu pellach y mae eu hangen yn ganolog i gefnogi gwasanaethau Haen 4 yn genedlaethol.

Argymhelliad 15.

Bod y Dirprwy Weinidog Iechyd a'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn gwerthuso canlyniadau'r Rhaglen Cefnogi Pobl, o ran ei chefnogaeth i bobl sydd â phroblemau camddefnyddio alcohol a sylweddau, yn darganfod beth oedd effaith y gostyngiadau yn y gyllideb yn ddiweddar, ac yn ymchwilio i ffyrdd amgen ac arloesol o ddarparu cyfleusterau triniaeth preswyl cynaliadwy.

Ymateb: Derbyn

Byddwn yn adolygu canlyniadau'r Rhaglen Cefnogi Pobl ar gyfer pobl â phroblemau camddefnyddio alcohol a sylweddau ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i weithio gyda Byrddau Cynllunio Ardal i archwilio ffyrdd arloesol o ddarparu cyfleusterau triniaeth preswyl cynaliadwy.

Argymhelliad 16.

Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi cynllun ar waith yn lle'r Cynllun Mentora Cymheiriaid cyn gynted â phosibl, ac yn cryfhau'r camau dros dro tra bydd hwn yn cael ei weithredu.

Ymateb: Derbyn

Mae cais Llywodraeth Cymru am gymorth o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) ar gyfer y Gwasanaeth Allan o Waith yn dal i fynd yn ei flaen ac mae disgwyl i'r fenter a fydd yn ei ddisodli ddechrau yn gynnar yn 2016, yn amodol ar gymeradwyaeth gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Bydd y gwasanaeth

hwn yn darparu cymorth mentora cymheiriaid a chymorth addas arall i bobl sy'n gwella ar ôl problemau camddefnyddio sylweddau a/neu iechyd meddwl gyda'r nod o helpu cyfranogwyr i gael cyflogaeth, neu i'w helpu i wella'u sefyllfa yn y farchnad lafur.

Mae'r gwasanaeth arfaethedig yn adeiladu ar lwyddiant a gwersi'r Prosiect Mentora Cymheiriaid Camddefnyddio Sylweddau 2009-2014 ac mae mesurau interim wedi cael eu sefydlu gan Fyrddau Cynllunio Ardal i bontio'r bwloch rhwng y ddau gynllun. Mae enghreifftiau'n cynnwys penodi dau weithiwr adferiad gan Fwrdd Cynllunio Ardal Gwent a gwasanaeth "Anogwyr Adferiad" yng Ngogledd Cymru. Mae gwasanaethau interim tebyg yn weithredol ym Mhowys ac mae BCA Caerdydd a'r Fro wedi gwneud cymorth cymheiriaid yn rhan o'u gwasanaeth ôl-ofal.

Argymhelliad 17.

Bod y Dirprwy Weinidog Iechyd yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, byrddau iechyd lleol a rhanddeiliaid eraill i edrych yn fanwl sut y gall Llywodraeth Cymru roi arweiniad ychwanegol, ar lefel strategol, er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol a sylweddau.

Ymateb: Derby

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu arweinyddiaeth strategol trwy'r Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol ar Gamddefnyddio Sylweddau ac mae wedi sefydlu fframwaith llywodraethu cadarn sy'n cynnwys cwrdd â Chadeiryddion Byrddau Cynllunio Ardal deirgwaith y flwyddyn fel rhan o'n hymngysylltiad strategol â Byrddau Cynllunio Ardal a'n trefniadau ar gyfer rheoli eu perfformiad. Caiff y cyfarfodydd hyn eu hategu gan gyfarfodydd swyddogion arweiniol camddefnyddio sylweddau sydd hefyd yn fodd i gyfnewid arfer gorau.

Rydym yn defnyddio dull iechyd cyhoeddus strategol ehangach o godi ymwybyddiaeth ac yn cefnogi nifer o ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth sy'n ymwneud yn benodol â chamddefnyddio sylweddau ac ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth cysylltiedig gan dargedu materion megis cyffuriau seicoweithredol newydd, alcohol, gordewdra, canser a dementia. Mae enghreifftiau'n cynnwys cyllido DAN 24/7, ein llinell gymorth a gwefan camddefnyddio sylweddau ddwyieithog, rad-ac-am-ddim sydd ar gael 24 awr y dydd, 7 niwrnod yr wythnos a Newid am Oes, ein hymgyrch hysbysebu sy'n rhoi cyngor i helpu teuluoedd i fwya'n iach, symud mwy a byw yn hirach. Mae'r ddwy fenter yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol lle y bo'n briodol i gyfleu negeseuon allweddol ynghylch lleihau niwed. Rydym hefyd yn cefnogi ac yn hyrwyddo mentrau megis 'Mis Ionawr Sych' sy'n annog pobl i ymwrthod ag alcohol a myfyrio ar eu cymeriant alcohol a'n hymgyrch llwyddiannus 'Gwybod y sgôr' sy'n addysgu pobl am beryglon camddefnyddio cyffuriau.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cydweithio'n agos gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i weithredu gwasanaeth WEDINOS (Cyffuriau sy'n dod i'r Amlwg a Nodi Sylweddau Newydd i Gymru); y Pecyn Cymorth Addysgol Cenedlaethol ar Steroidau a Chyffuriau Gwella Delwedd i Bobl Ifanc; y Compendium Iechyd a Lles; yr ymgyrch ymyriadau byr o ran alcohol, 'Have a Word' a'r gronfa ddata lleihau niwed sy'n casglu amrywiaeth o wybodaeth am gyfnewid nodwyddau a chwistrellau, naloxone a data ynghylch marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau.

Hefyd, rydym wedi cyhoeddi cynllun cyflawni newydd ar gyfer clefyd yr afu sy'n egluro sut y byddwn yn gwella gwasanaethau clefyd yr afu ar gyfer poblogaeth Cymru. Gan gydweithio gyda GIG Cymru, rydym wedi datblygu cynllun i helpu i atal clefyd yr afu a gwella gwasanaethau cysylltiedig. Nod y cynllun yw: atal y cynnydd yng nghlefyd yr afu ac mewn marwolaethau; rhoi mwy o gymorth i gleifion; gwella ansawdd gwasanaethau; gwella gwybodaeth arbenigol ynghylch clefyd yr afu drwyddi draw yn y gwasanaeth iechyd ac annog cleifion i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u gofal.

Bydd y Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau newydd (2016-18) yn nodi pa fesurau ychwanegol y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, byrddau iechyd lleol a rhanddeiliaid eraill i fynd ati ymhellach i godi ymwybyddiaeth o'r niweidiau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol a sylweddau.

Argymhelliad 18.

Dylai'r Dirprwy Weinidog Iechyd weithio gydag ysgolion a rhanddeiliaid allweddol i edrych yn fanwl ar ddulliau arloesol o addysgu plant a phobl ifanc am y niwed a achosir gan gamddefnyddio alcohol a sylweddau mewn ffordd gyson ledled Cymru.

Ymateb: Derbyn

Mae Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan ar hyn o bryd yn darparu addysg gyson ym maes camddefnyddio sylweddau i 100% o'r ysgolion yng Nghymru a nifer o sefydliadau addysgol eraill gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion. Caiff gwersi eu hadolygu'n flynyddol a defnyddir dulliau arloesol i ddarparu'r gwersi trwy bob cyfnod allweddol yn y cwricwlwm.

Mewn rhai ardaloedd, mae'r rhaglen ysgolion eisoes yn cael ei hategu gan ddulliau arloesol eraill o ddarparu addysg camddefnyddio sylweddau ac fe groesewir dulliau o'r fath ar yr amod eu bod yn seiliedig ar dystiolaeth a bod eu hansawdd yn cael ei sicrhau er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn ategu Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan gan felly sicrhau bod negeseuon cyson yn cael eu cyfleu.

Mae adolygiad o Raglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan wrthi'n mynd rhagddo a bydd yn asesu effeithiolrwydd y rhaglen. Bydd hyn yn cynnwys

ystyried darpariaeth gyffredinol o'i chymharu â darpariaeth wedi'i thargedu ac ystyried pa un a ddylid cyfyngu'r rhaglen i ddarpariaeth mewn ysgolion ynteu a ddylai fod â hyblygrwydd i ymgysylltu â phobl ifanc mewn ffyrdd eraill. Bydd canlyniadau'r adolygiad yn cael eu bwydo i mewn i'r gwaith o weithredu argymhellion adolygiad Donaldson yng nghyswllt Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh).

Bydd dull ysgol gyfan o ran materion camddefnyddio sylweddau yn cael ei ddatblygu hefyd fel rhan o waith o fewn y Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru. Mae dros 99% o ysgolion yn cyfranogi'n weithredol yn y rhaglen hon.

Argymhelliad 19.

Fel rhan o'r Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau (2016-2018), bod y Dirprwy Weinidog Iechyd yn sicrhau bod prifysgolion â strategaethau ar waith sy'n mynd i'r afael yn ddigonol â materion camddefnyddio alcohol a sylweddau.

Ymateb: Derbyn

Mae Fframwaith ar gyfer Lleoliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach Iach a Chynaliadwy wedi cael ei ddatblygu, a bydd yn cael ei gyflwyno gan Iechyd Cyhoeddus Cymru gan ddechrau ym mlwyddyn academaidd 2015/16. Un o'r pynciau i'w trafod yw defnyddio a chamddefnyddio sylweddau, sy'n cynnwys alcohol. Gellir gweld y Fframwaith yn:

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/82258#c>

Caiiff y fframwaith ei ategu gan y Safon Iechyd Gorfforaethol, y marc ansawdd cenedlaethol ar gyfer iechyd a lles yn y gweithle, sy'n cynnwys y gofyniad i gyflogwyr fod â pholisi ar gamddefnyddio alcohol a sylweddau i gynorthwyo eu staff. Mae pedair prifysgol wedi cyrraedd y Safon Iechyd Gorfforaethol hyd yma.

Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd gyda Phrifysgol De Cymru i greu cysylltiadau â'r holl brifysgolion yng Nghymru i asesu ymddygiadau defnyddio cyffuriau ac alcohol ymhlith myfyrwyr. Hefyd byddwn yn gweithio gyda phrifysgolion i sicrhau bod polisiau'n bodoli a bod protocolau atgyfeirio digonol wedi cael eu sefydlu lle y bo angen.

Bydd y Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau 2016-18 yn nodi pa gamau gweithredu pellach y gellir eu cymryd dros y 3 blynedd nesaf i fynd i'r afael â materion camddefnyddio alcohol a sylweddau mewn prifysgolion.

Argymhelliad 20.

Dylai'r Dirprwy Weinidog Iechyd ymchwilio i effeithiolrwydd labelu unedau alcohol, a gweithio gyda rhanddeiliaid – gan gynnwys Llywodraeth y DU - i

nodi pa wybodaeth ychwanegol a allai gael ei chynnwys ar gynhyrchion alcohol.

Ymateb: Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi comisiwn i'w hadran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi i adolygu'r dystiolaeth bresennol ynglŷn ag effeithiolrwydd labelu unedau alcohol. Bydd canlyniad yr adolygiad hwn ynghyd ag asesiad o'r sail ddeddfwriaethol yn dylanwadu ar ein trafodaeth barhaus gyda Llywodraeth y DU am y mater hwn.

Argymhelliad 21.

Dylai Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i thrafodaethau â Llywodraeth y DU ar gynhyrchu model cadw pwerau, sicrhau bod y Bil Cymru sydd ar ddod, yn rhoi cyfres briodol o bwerau i'r Cynulliad i fynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol mewn ffordd gyfannol.

Ymateb: Derbyn

Rydym wedi gwneud ein safbwynt ynghylch trwyddedu alcohol yn glir iawn i Lywodraeth y DU a byddwn yn parhau i bwysu am fodel cadw pwerau sy'n rhoi'r pwerau a'r offer angenrheidiol i Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru.